# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 14 Gorffennaf 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fonitro defnydd staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a) o'r e-bost a b) o'r rhyngrwyd? (WAQ52175)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ni chaiff defnydd staff Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r system e-bost a'r rhyngrwyd ei fonitro'n rheolaidd, heblaw bod dulliau wedi'u hawtomeiddio i fonitro'r system e-bost a'r rhyngrwyd yn cael eu defnyddio. Caiff negeseuon e-bost a dderbynnir ac a anfonir eu sganio'n awtomatig am firysau a chaiff unrhyw e-byst sy'n cynnwys firws eu blocio yn awtomatig.

Yn yr un modd, defnyddir meddalwedd hidlo wedi'i awtomeiddio ar gyfer cael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae'r feddalwedd yn gwirio pa un a yw'r safle a gyrchwyd yn perthyn i gategori sydd wedi cael ei flocio gan Lywodraeth y Cynulliad e.e. penodol ar gyfer oedolion. Os yw'r safle yn perthyn i gategori sydd wedi cael ei flocio yna caiff mynediad i'r safle ei atal yn awtomatig. Caiff y rhestr o'r gwefannau sydd ym mhob categori ei chynnal a'i diweddaru yn ddyddiol gan werthwyr y feddalwedd.

Caiff pob defnydd o'r rhyngrwyd ei logio yn fewnol ond dim ond yn ystod ymchwiliadau i ddefnydd amhriodol y caiff ei adolygu. Os honnir defnydd amhriodol naill ai o'r system e-bost neu'r rhyngrwyd, bydd ymchwiliad yn cael ei awdurdodi gan yr adran Adnoddau Dynol. Gallai'r ymchwiliad olygu y bydd swyddogion Diogelu Gwybodaeth Llywodraeth y Cynulliad yn cael mynediad i gyfrifon e-bost staff ac yn edrych ar gofnodion mynediad i'r rhyngrwyd, yn unol â pholisi diogelwch Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amser ymateb cyfartalog ar gyfer gohebiaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob blwyddyn er 1999, fesul adran? (WAQ52178)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r amser ymateb hiraf ar gyfer gohebiaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob blwyddyn er 1999, fesul adran? (WAQ52179)

**Y Prif Weinidog:** Dim ond data cyflawn ers 2004 ac ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chyfanrwydd sydd ar gael, nid ar gyfer Adrannau unigol. Dengys hyn yn y tabl canlynol.

| Blwyddyn | Amser Ymateb Cyfartalog (diwrnodau) | Amser Ymateb Hiraf (diwrnodau)* |
|---|---|---|
| 2004 | 13.2 | 156 |
| 2005 | 11.4 | 259 |
| 2006 | 11.3 | 127 |
| 2007 | 12.3 | 78 |
| 2008** | 11.4 | 83 |

Y targed ar gyfer ymateb i ohebiaeth yw 17 diwrnod gwaith. Gellir gweld o'r tabl bod yr amserau ymateb cyfartalog ar gyfer pob blwyddyn o fewn y targed hwn.

Nodiadau
* Gall eitemau unigol o ohebiaeth olygu amser ychwanegol sylweddol ar gyfer fformiwleiddio ymateb cynhwysfawr, terfynol. Yn gyffredinol, mae angen amser ychwanegol o'r fath pan mae'n rhaid ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth y DU neu sefydliadau o'r tu allan.
** Hyd at 7 Gorffennaf.

**Nick Bourne(Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r pellter a amcangyfrifir bod Gweinidogion wedi teithio a) mewn car, b) mewn trên, c) ar awyren a d) drwy ddefnyddio dulliau eraill o drafnidiaeth ar fusnes swyddogol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob blwyddyn ers iddynt ddechrau yn eu swydd? (WAQ52182)

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n bosibl rhoi'r pellteroedd amcangyfrifedig sydd eu hangen mewn ffordd gywir ac ystyrlon o'r wybodaeth sydd ar gael.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu manylion am faint a dalwyd mewn bonysau diwedd blwyddyn a) i'r holl staff, a b) i uwch swyddogion y gwasanaeth sifil, wedi'u dadansoddi fesul Adran Weinidogol, yn y flwyddyn 2007/2008, a sawl taliad a wnaethpwyd? (WAQ52195)

**Y Prif Weinidog:** Hyd yma, ni thalwyd unrhyw fonysau perfformiad mewn perthynas â'r flwyddyn gofnodi 2007/08. Rwyf wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol roi nodyn i chi unwaith y gwneir y taliad bonws.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cyfanswm cost adeiladu pob un o'r dewisiadau a gynigir ar gyfer y ffordd gyswllt i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd? (WAQ52121)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Ar y cam hwn o ddatblygu nid yw'n bosibl rhoi cyfanswm costau adeiladu cywir. Byddai'r rhain yn cael eu datblygu yn fanylach yn dilyn cyhoeddi datrysiad a ffafrir.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddatblygu'r ffordd gyswllt arfaethedig i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd fesul cam a pha wybodaeth sydd gan y Gweinidog am y costau a'r amserlen debygol? (WAQ52122)

**Ieuan Wyn Jones:** Bydd yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus parhaus yn ystyried gosod unrhyw ffordd gyswllt arfaethedig gyda gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus cysylltiedig fesul cam. Cyfeiriaf at fy ateb i WAQ52121 o ran costau. Mae'r gwaith adeiladu yn amodol ar gwblhau'r gweithdrefnau caniatad statudol.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael o ran ehangu defnydd y Cerdyn Teithio Rhatach ledled y DU? (WAQ52184)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar gyflwyno cynllun teithio rhatach ar draws y DU. Rwyf yn hollol gefnogol o'r pwerau yn Neddf Teithio Rhatach mewn Bws 2007 sy'n darparu ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath. Fodd bynnag, bydd angen i mi fod yn fodlon y gellir mynd i'r afael â materion ariannol, gweithredol a thechnegol cyn cael unrhyw drafodaethau manwl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o staff y Gweinidog sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant galwedigaethol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ52126)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnoch amdani ar gael yn ganolog a byddai costau darparu'r wybodaeth yn afresymol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion nifer y plant oed ysgol gynradd sy’n hanu o Loegr sy’n mynychu ysgol yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ52131)

**Jane Hutt:** Dim ond ers 2004 y mae gwybodaeth am god post cartref disgyblion ar gael. Mae’r data ar gyfer y cyfnod 2004-2007 yn y tabl isod.

**Disgyblion rhwng 5 a 10 oed sy’n byw yn Lloegr ac yn cael eu haddysgu yng Nghymru**

| | **Nifer o ddisgyblion** |
|---|---|
| **Blwyddyn** | **Disgyblion** |
| 2004 | 508 |
| 2005 | 532 |
| 2006 | 539 |
| 2007 | 526 |

Ffynhonnell: School Census

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl Ysgol Gynradd yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu cynllun brecwast am ddim Llywodraeth y Cynulliad ac yna wedi tynnu allan o’r cynllun, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul awdurdod lleol? (WAQ52170)

**Jane Hutt:** Ni chesglir y wybodaeth hon yn rheolaidd. Fodd bynnag, ers dechrau’r cynllun ym mis Medi 2004, rwy’n deall ein bod wedi cael ein hysbysu bod dwy ysgol wedi penderfynu tynnu allan o’r fenter brecwast am ddim am resymau heblaw cau neu gyfuno ysgolion.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o ‘ôl-troed carbon’ Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ52134)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):**

- Ni chyfrifwyd ôl troed carbon ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond mae systemau mesur ar waith i asesu allyriadau carbon deuocsid uniongyrchol ac anuniongyrchol o ystad a gweithrediadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro perfformiad.
- Cyfrifwyd ôl troed ecolegol ar gyfer Parc Cathays yn 2006-07, a ddefnyddiwyd i adolygu perfformiad a chynllunio camau gweithredu yn y dyfodol i leihau ôl troed carbon Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol.
- Caiff perfformiad ei gyhoeddi yn flynyddol yn Adroddiad Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Cynhaliwyd adolygiad rheoli, sy’n rhan hanfodol o System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, yn flynyddol gan y Bwrdd Rheoli, pan fydd perfformiad y flwyddyn flaenorol wedi cael ei asesu a phan wneir penderfyniadau ar gynlluniau yn y dyfodol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ymdrechion sy’n cael eu gwneud i wneud gweithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ‘niwtral o ran carbon’ a pha asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud o ba bryd y gellid cyrraedd targed o’r fath? (WAQ52135)

**Andrew Davies:**

- Rheolir gwelliannau i gynaliadwyedd ystad graidd Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy System Rheoli Amgylcheddol a gafodd ei gosod drwy Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Gwneir ymdrech sylweddol i wella ac ymestyn y System, sy’n allweddol ar gyfer mynd i’r afael â thargedau cynaliadwyedd gan gynnwys bod yn garbon-niwtral.
- Mae’r system yn cynnwys targed i fod yn garbon-niwtral ar gyfer ystad weinyddol graidd Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn Rhagfyr 2012.

- Ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at fod yn garbon-niwtral erbyn 2012 fydd 1) lleihau'r defnydd o ynni a gwastraff ac, felly, lleihau allyriadau carbon, 2) defnyddio deunydd adnewyddadwy ar-safle a chynhyrchu meicro, a 3) dim ond defnyddio prosesau gwrthbwyso carbon i wneud iawn am unrhyw ddiffygion. Gweithredir Prosiect Rheoli Carbon, mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Carbon, i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r nodau hyn. Bydd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ymagweddau tuag at wrthbwyso carbon yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Prosiect Rheoli Carbon.
- Mae perfformiad yn erbyn y targed hwn wedi'i gofnodi yn Adroddiad Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Mae swyddogion yn cwblhau adroddiad 2007-08 ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw broblemau o ran cynnydd yn erbyn y targed carbon-niwtral wedi'u nodi ar hyn o bryd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion faint o fwyd a addaswyd yn enetig sydd wedi cael ei weini a) ar eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru a b) mewn derbyniadau a noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ52177)

**Andrew Davies:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gontractau arlwyo ffurfiol ar waith ar gyfer ei phrif swyddfeydd ym Mharc Cathays, Merthyr Tudful, Llandrindod, Caernarfon a Chaerfyrddin. Fel rhan o drefniadau'r contract ffurfiol, gwaherddir cynnig bwydydd a addaswyd yn enetig i'w gwerthu. Mae'r contractwyr arlwyo wedi'n sicrhau hefyd na chaiff bwydydd sy'n tarddu o ffynhonnell a addaswyd yn enetig, e.e. cig neu laeth gan anifail a gaiff ei fwydo ar borthiant a addaswyd yn enetig, eu prynu.

Nid yw manylion y swm o fwyd o ffynonellau a addaswyd yn enetig, a gaiff ei weini mewn achlysuron a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar gael yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Yn nhrafodaethau'r Gweinidog gyda swyddogion Iechyd Anifeiliaid Defra ynghylch toriadau mewn gwasanaethau sy'n berthnasol i Gymru, pa ffrydiau o'r gyllideb a nodwyd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, a pha asesiad a wnaethpwyd o'u heffaith ar gyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol? (WAQ51892)

***Substantive answer following holding reply.***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Budgets for Animal Health are held by DEFRA and not devolved to Wales. In recent discussions with Animal Health on budgets they provided assurances on their commitment to assist with the One Wales objective to eradicate bTB and to also ensure the maintenance of an effective and efficient response to manage any future disease outbreaks.

In order to manage the budget cuts by DEFRA, Animal Health are first exploring how they can absorb this through making their infrastructure more efficient without affecting delivery. This process is still on-going and so far no indication has been given that either staffing levels or services in Wales will suffer as a consequence of this. If any implications do materialise they have said they will discuss these with the Welsh Assembly Government so an assessment of any impact can be made.